

DATA RADAR

Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn dilyn rhai o'r camau i ddynton a menywod yr RAF eu dilyn i brosesu data yn ystod y Brwydr Prydain.

Y CYFARPAR SYDD EI ANGEN

- Taflen plotio radar
- Protractor, pensil, pren mesur a chyfrifiannell


BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD

- Mae'r math o ddangosydd radar a ddefnyddiwyd gan yr RAF yn ystod Rhyfel Prydain i'w weld ar y dde.
 - Mae pob rhaniad llorweddol yn cynrychioli 0.2 milieiliad. Mae tonnau radio yn teithio 300,000 km/eiliad. Cyfrifwch pa mor bell mae'r targed.
 - Enw'r targed yw F1. Ychwanegwch eich ateb at y data ar gyfer gorsaf F er mwyn cwblhau'r tabl.
- Mae safleoedd dwy orsaf radar sy'n cael eu defnyddio gan yr RAF i'w gweld ar y Daflen Plotio Radar. Roedd yr orsaf yn Fairlight (Gorsaf F) tua 45km i ffwrdd o'r un yn Beachy Head (Gorsaf BH).
 - Mae data pellter a chyfeiriant ar gyfer targedau o'r ddwy orsaf i'w gweld yn y tabl. Defnyddiwch brotractor a phren mesur i farcio safle'r targedau hyn ar y daflen plotio radar (graddfa 1cm = 5km). Labelwch bob targed rydych chi'n ei farcio gyda'i god (BH1, F1 ac ati).
 - Nawr, edrychwch ar y targedau rydych chi wedi'u plotio. Penderfynwch pa barau o blotiau (ee BH1 ac F3) allai fod yr un targed (yr awyren). Pa barau sy'n debygol o fod yn ddau darged ar wahân? (Nid oes atebion cywir ac anghywir yn yr ymarfer hwn, ond yn yr Ail Ryfel Byd roedd crebwyll gweithredwr profiadol yn dyngedfennol).



© Hawlfraint y Goron yr Imperial War Museum

DANGOSYDD RADAR



DATA RADAR

Targedau wedi'u synhwyro gan Orsaf F		
Cod y targed	Pellter	Cyfeiriant
F1		110°
F2	70 km	190°
F3	70 km	130°

Targedau wedi'u synhwyro gan Orsaf BH		
Cod y targed	Pellter	Cyfeiriant
BH1	50 km	150°
BH2	70 km	130°
BH3	90 km	110°